Rhif: WG43817

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymateb

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Drafft (Cyffredinol) (Cymru) 2022

Ionawr 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-621-7

Trosolwg
Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru).

Camau i'w Cymryd
Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig
Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Perfformiad a Phartneriaethau – Llywodraeth Leol
Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGPartnerships@gov.wales

Copïau Ychwanegol
Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

ADRAN UN: Cyflwyniad 4
Yr ymgynghoriad hwn 4
Pwy ymatebodd? 5
Ymgysylltu ar yr ymgynghoriad 5
Y camau nesaf 5
Dull o ddatblygu'r crynodeb o'r ymatebion 6
ADRAN DAU – Crynodeb o'r Ymatebion 7
Ymgynghoriad Pennod un 7
Ymgynghoriad Pennod Dau 15
Ymgynghoriad Pennod Tri 16
Ymgynghoriad Pennod Pedwar 16
Yr Iaith Gymraeg 18
ADRAN TRI – Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 Drafft. 20
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr 25

ADRAN UN: Cyflwyniad

Yr ymgynghoriad hwn

Ar 10 Tachwedd 2021, lansiodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (“y Gweinidog”) ymgynghoriad ar drydedd set o Reoliadau drafft sy’n ymwneud â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”).

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf, a ddaeth i ben ar 4 Ionawr 2021, yn ymwneud â Rheoliadau Sefydlu drafft a fyddai’n golygu bod modd sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru. Cafodd y Rheoliadau Sefydlu hyn eu gwneud ar 17 Mawrth 2021, ochr yn ochr â nifer o offerynnau statudol, a oedd yn sicrhau y byddai’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig o’r diwrnod cyntaf yn ddarostyngedig i’r dyletswyddau y byddai disgwyl iddynt fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru; a hefyd i sicrhau llywodraethu a goruchwyliaeth briodol.

Roedd ail ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 6 Medi 2021, yn parhau â’r broses o sefydlu’r fframwaith deddfwriaethol y byddai’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu oddi mewn iddo, ac yn gofyn am safbwyntiau ar gymhwyso elfennau penodol o’r fframwaith hwnnw (yr ail gyfran). Gwnaed Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 ar 3 Rhagfyr 2021, gan ddarparu ar gyfer rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig; swyddogaethau ‘swyddogion gweithredol’ penodol i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig, sef y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a’r Prif Swyddog Ariannol; ac i swyddogaethau’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu cyflawni gan bobl eraill, er enghraifft ei staff neu ei is-bwyllgorau; yn ogystal â rhywfaint o ddarpariaeth gyffredinol o ran staff y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn ogystal, gwnaeth y Rheoliadau nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol i roi effaith lawn i'r darpariaethau hyn.

Roedd y trydydd ymgynghoriad hwn, ar Reoliadau drafft Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 (“Rheoliadau Set 3”) yn parhau â’r broses o sefydlu’r fframwaith deddfwriaethol y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu o’i mewn. Roedd Rheoliadau Set 3 yn cynnwys darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ac ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phanel dyfarnu Cymru i’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac aelodau’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Maent hefyd yn rhoi modd i Gyd-bwyllgor Corfforedig fasnachu ac ymgymryd â gweithgarwch masnachol. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyhoeddi ei gyfansoddiad a chanllaw cyfansoddiad, yn ogystal â chynnwys nifer o fân ddarpariaethau mewn perthynas â chyllid, achosion cyfreithiol, cofnodion, dogfennau, materion staffio a gweithlu a diwygiadau amrywiol eraill. Roedd yr ymgynghoriad ar Reoliadau Set 3 hefyd yn amlinellu’r bwriad i gynnwys darpariaeth ar gyfer trosolwg a chraffu yn Rheoliadau Set 3 – yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn am 6 wythnos rhwng 10 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2021, ac fe’i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd y ddolen i’r ddogfen ymgynghori at amrywiaeth eang o randdeiliaid, nifer ohonynt yn arweinwyr proffesiynol allweddol mewn llywodraeth leol a fu’n ymwneud â chyd-gynhyrchu’r manylion polisi y tu ôl i Reoliadau Set 3.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau yn ymwneud â'r darpariaethau deddfwriaethol yn Rheoliadau Set 3 hefyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu, pan gyfeiriasom atynt fel 'Rheoliadau Cyffredinol'. Mae'r ymatebion bryd hynny wedi cyfrannu at ein gwaith parhaus gyda llywodraeth leol ar gynnwys Rheoliadau Set 3.

Mae'r Gweinidog wedi mynegi ei diolch ar sawl achlysur, gan gynnwys yn ystod dadleuon y Senedd ar y gwahanol Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig a osodwyd hyd yma, am yr ymgysylltu adeiladol sydd wedi helpu i lunio'r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig cychwynnol a'r Rheoliadau atodol. Mae arweinwyr llywodraeth leol, swyddogion, CLlLC a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac mae'r mewnbwn hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio'r gwaith hwn.

Pwy ymatebodd?

Arweiniodd y broses ymgynghori at 21 o ymatebion ysgrifenedig. Nodir yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- 11 Awdurdod Lleol (gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – CLlLC, Cyd-bwyllgorau Corfforedig Canolbarth Cymru ac un ar ran Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol)
- 4 gan Gynghorau Cymuned a Thref
- 1 Awdurdod Parc Cenedlaethol
- 1 Ombwdsmon
- 1 Awdurdod Tân ac Achub
- 1 Sefydliad trydydd sector
- 2 Gorff cynrychioli, corff proffesiynol neu gymdeithas

Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi ei darparu yn **Atodiad A**.

Ymgysylltu ar yr ymgynghoriad

Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol yr awdurdodau lleol ar ddatblygu'r bwriad y tu ôl i gynnwys arfaethedig Rheoliadau Set 3. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ehangach yn ystod yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gwreiddiol, ac mae safbwyntiau rhanddeiliaid yn ystod y sesiynau hynny a'r sesiynau briffio technegol hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Rheoliadau Set 3 hyn.

Mae swyddogion hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd lle mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cael eu trafod, a chyfarfod â chynrychiolwyr o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain.

Y camau nesaf

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle dylid diwygio Rheoliadau Set 3 i sicrhau eu bod yn gweithio'n ymarferol yn ôl y bwriad, ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am y safbwyntiau hynny. Bydd y newidiadau

hyn yn helpu i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith, gyda'r Rheoliadau a'r Canllawiau'n darparu'r cyfuniad o eglurder a hyblygrwydd y gofynnir amdano. Mae'r meysydd lle mae Rheoliadau Set 3 yn cael eu diwygio yn cael eu hamlygu o dan yr adran "Ymateb Llywodraeth Cymru" tua diwedd y ddogfen hon.

Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau ei hymrwymiad i barhau i weithio'n agos gydag Arweinwyr ym mhob un o ranbarthau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a chyda CLlLC, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a phartneriaid eraill i sicrhau bod yr holl waith i gynorthwyo'r broses o roi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith yn diwallu anghenion llywodraeth leol a phartneriaid.

Dull o ddatblygu'r crynodeb o'r ymatebion

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio nodi'n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn 20 cwestiwn mewn 4 Pennod.

- Roedd Pennod 1 yn ymwneud â Rheoliadau drafft Set 3 eu hunain ac yn gofyn nifer o gwestiynau ar:
    - Eglurder cyffredinol Rheoliadau Set 3
    - Eglurder elfennau penodol Rheoliadau Set 3
    - Sefydlu Pwyllgorau Safonau ar y cyd
    - Y ddarpariaeth ar gyfer aelodau dirprwyol neu dros dro
    - Y pŵer i fasnachu a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu'n fasnachol

- Roedd Pennod 2 yn holi ynghylch cymhwyso a gwahardd aelodau o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Roedd Pennod 3 yn gofyn am y dull gweithredu y dylid ei ddefnyddio wrth graffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig
- Roedd Pennod 4 yn gofyn am gymhwyso is-ddeddfwriaeth bellach mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am effaith y Rheoliadau ar y Gymraeg, ac am sylwadau cyffredinol eraill fel rhan o'r ymgynghoriad.

Mae'r crynodeb o'r ymatebion wedi cael ei nodi ar batrwm y pedair pennod a'r cwestiynau cysylltiedig.

Mewn rhai achosion, mae ymatebydd wedi darparu un ymateb cyffredinol neu wedi ymateb i faterion penodol ar yr ymgynghoriad o dan ymateb mwy cyffredinol o dan 'materion eraill'. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys yr ymatebion hynny fel rhan o'r cwestiwn ar 'faterion cysylltiedig eraill' ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau hynny yng nghyd-destun y materion penodol / rhannau o Reoliadau Set 3 fel bo'n briodol.

ADRAN DAU – Crynodeb o'r Ymatebion

Ymgynghoriad Pennod un

Cwestiwn Un

Roedd Cwestiwn 1 yn gofyn am farn ynghylch a oedd Rheoliadau Set 3 yn glir, ac os nad oeddent, am fanylion ynghylch sut gellid eu gwneud yn gliriach.

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, teimlai 11 fod Rheoliadau Set 3 yn glir, neu ar y cyfan yn ymddangos yn glir ac yn gyson â'r egwyddor o drin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelod o deulu'r awdurdod lleol a sicrhau eu bod yn destun yr un gofynion â chyrff cyhoeddus eraill yn union o ran bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Teimlai dau ymatebydd mai dim ond trosolwg o Reoliadau drafft Set 3 oedd pennod un, ac felly roedd y cwestiynau'n rhy amwys. Teimlai un ymatebydd y gallai pennod 1 ei gwneud yn gliriach y dylid ymdrin â llywodraethu a phrosesau priodol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn yr un modd â'r cynghorau cyfansoddol, ac nad oes unrhyw lacio ar lywodraethu a phrosesau priodol o ran y cynghorau cyfansoddol.

Nododd un ymatebydd a oedd yn credu bod Rheoliadau set 3 yn glir, lle'r oedd bwriad cynnwys darpariaeth yn Rheoliadau Set 3 yn dilyn yr ymgynghoriad, y gallai absenoldeb y testun penodol yn y drafft o'r Rheoliadau a rannwyd yn ystod yr ymgynghoriad achosi rhywfaint o ddryswch.

Cwestiwn Dau

Roedd Cwestiwn 2 yn gofyn am farn ynghylch a yw Rheoliadau Drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer Cod Ymddygiad i aelodau.

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd teimlai 13 bod y darpariaethau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn glir, tra teimlai 2 nad oedd yn ddefnyddiol bod y rheoliadau yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn unig, heb unrhyw eglurhad pellach.

O'r rhai a oedd o'r farn bod Rheoliadau Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer Cod Ymddygiad, gwnaed y pwyntiau a ganlyn hefyd:

- Roedd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bryderon ynghylch datgymhwyso is-adrannau 6 rhan (a) a (b) o adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a'r cynnig i is-adran newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyhoeddi eu codau'n electronig yn unig. Roedd yr Ombwdsmon yn teimlo y gallai hyn wahaniaethu yn erbyn y rhai nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg ddigidol, na'r sgiliau i'w defnyddio, yn enwedig y rhai sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol a phobl hŷn
- Gofynnodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd am eglurder ynghylch achos o aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (y Cyngor) yn cael ei ymchwilio am achos honedig o dorri Cod Ymddygiad ei gyngor cyfansoddol, ac a ddylai swyddog monitro'r Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol hefyd gael gwybod ar yr un pryd â swyddog monitro'r cyngor cyfansoddol

- Nododd dau ymatebydd nad oedd Rheoliadau Set 3 yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig lofnodi unrhyw ddatganiad i gadw at y Cod Ymddygiad, yn yr un modd ag y mae'n ofynnol i Gynghorwyr ei lofnodi. Teimlai'r ddau fod derbyn y cod drwy lofnod yn rhan allweddol o weithredu gofynion y cod, yn enwedig ar gyfer aelodau cyfetholedig, ac y dylid ailystyried hyn. Yn ddiddorol, croesawodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y dull gweithredu arfaethedig yn Rheoliadau Set 3 i ddileu'r gofyniad i aelodau gytuno'n ysgrifenedig i gadw at y Cod Ymddygiad perthnasol fel cam cadarnhaol
- Gofynnodd un ymatebydd, os oedd yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyhoeddi'r cod neu'r cod diwygiedig yn electronig, a oedd hyn yn golygu felly y bydd yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael ei wefan ei hun

Cwestiwn Tri

Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Rheoliadau Set 3 ddarparu ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Safonau ar y cyd.

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, credai 7 y dylai Rheoliadau Set 3 ddarparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Safonau, credai 7 na ddylent – er y dylid nodi bod 2 o'r ymatebion hyn o'r farn bod Pwyllgorau Safonau wedi eu darparu ar eu cyfer yn Rheoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, er nad dyna'r sefyllfa. Gofynnodd un ymatebydd am ragor o fanylion a chyfle i ymgynghori ar y mater.

O'r rhai a oedd o blaid Rheoliadau Set 3 yn darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Safonau, teimlwyd y byddai dull gweithredu o'r fath yn:
- Sicrhau cysondeb gweithdrefnau; hyder y cyhoedd yn y drefn gwyno; safonau moesegol uwch; swyddogaethau cynghori a chefnogi cryfach; cyfuno arbenigedd; a chydgyllido ymchwiliadau a hyfforddiant
- Lleihau'r baich gweinyddol o bosibl ac yn helpu i osgoi cost afresymol ac anghymesur neu adnoddau swyddogion
- Darparu disgresiwn a hyblygrwydd lleol

Teimlai un ymatebydd a oedd o blaid darpariaeth ar gyfer Cyd-bwyllgor Safonau y byddai'r gallu i alluogi Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddefnyddio Pwyllgor Safonau un o'i gynghorau cyfansoddol (gyda chytundeb) yn fuddiol hefyd. Gofynnodd un arall am eglurhad pellach ynghylch a fyddai Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu cael Cydbwyllgor Safonau ar y cyd a / neu ddefnyddio Pwyllgor Safonau presennol.

O'r rhai nad oeddent o'r farn y dylai Rheoliadau Cam 3 ddarparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Safonau, gwnaed y sylwadau ychwanegol a ganlyn:
- Y dylai Pwyllgor Safonau eu cynghorau eu hunain ymdrin ag unrhyw achos o dorri'r cod gan aelodau
- A oedd angen dull gweithredu o'r fath, ynteu a yw'n ychwanegu at effeithlonrwydd neu a allai trefniadau lleol fel defnyddio cadeiryddion Pwyllgorau Safonau lleol fod yn ddull synhwyrol
- Oni bai fod anawsterau penodol wrth recriwtio aelodau annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgorau Safonau, yna mae rôl y Pwyllgor o ran hyrwyddo safonau moesegol yn cael ei chyflawni'n well ar lefel leol ac nid ar y cyd â chorff arall

Nodwyd hefyd y dylai fod gan Bwyllgorau Safonau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yr un pwerau dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 i gyfeirio adroddiad neu argymhelliad sy'n ymwneud ag ymchwiliad i gamymddwyn at Bwyllgor Safonau awdurdod arall. Bydd hyn yn golygu bod modd gwneud trefniadau ar gyfer penderfyniad mwy annibynnol ar honiad o gamymddwyn, lle mae Pwyllgor Safonau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r farn y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau oherwydd cysylltiad agos â'r aelod dan sylw.

Cwestiwn Pedwar

Roedd cwestiwn 4 yn gofyn am farn ynghylch a yw Rheoliadau Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer trefniadau pe bai aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei atal dros dro.

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, credai 13 fod Rheoliadau Set 3 yn amlwg yn darparu ar gyfer trefniadau pe bai aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei atal, tra chredai 2 nad oeddent yn gwneud hynny.

O'r ymatebwyr hynny a oedd o'r farn eu bod yn amlwg yn darparu ar gyfer trefniadau pe byddent yn cael eu hatal, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Teimlai dau y gallai cyfeiriad at 'Ddirprwy Arweinydd' yn y rheoliadau wneud y dull o atal yn gliriach ac osgoi unrhyw angen am enwebiad penodol gan y cyngor cyfansoddol
- Nododd un ymatebydd y byddai aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn Arweinwyr / Aelodau Cabinet ac y byddent yn arfer pwerau gweithredol o fewn eu cynghorau eu hunain. Gan hynny, byddai angen egluro effaith unrhyw ataliad o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar eu rolau eraill
- Nododd un ymatebydd nad oedd y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Set 3, na'r Canllawiau Cyd-bwyllgor Corfforedig drafft, yn nodi pa mor gyflym y dylid penodi aelodau dros dro, na beth sy'n digwydd o ran gwneud penderfyniadau tra bod swyddi ar y Pwyllgor yn dal heb eu llenwi. Teimlent y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys darpariaeth yng Nghanllawiau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel na fydd parhad y gwasanaeth mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei ddarparu yn cael ei beryglu'n ormodol o ganlyniad i swyddi gwag ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu ei is-bwyllgorau

O'r rhai a oedd yn teimlo nad oedd y darpariaethau yn amlwg yn darparu ar gyfer trefniadau pe byddent yn cael eu hatal, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Teimlai'r ddau ymatebydd nad oedd yn glir beth a olygir wrth 'swyddogaeth' mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny na chaiff aelod weithredu mewn perthynas â nhw
- Ceisiodd y ddau ymatebydd fwy o eglurder ynghylch lle gallai aelod weithredu o ran rhai ond nid pob un o'r swyddogaethau
- Roedd y ddau ymatebydd yn ansicr pam roedd gofyniad i benodi aelod newydd / aelod dirprwyol ac yn meddwl y dylai hyn fod yn ddewisol
- Yn olaf, gofynnodd y ddau ymatebydd am eglurhad o'r hyn a olygir gan ddeiliaid swyddi mewn perthynas â'r darpariaethau o ran yr Aelod o Barc Cenedlaethol

Cwestiwn Pump

Roedd cwestiwn 5 yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Rheoliadau Set 3 ddarparu i bob aelod o'r cyngor neu aelod dros dro o'r Cyngor neu aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol, gael eu trin yr un fath â'r aelod y penodwyd ef i arfer ei swyddogaethau.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd pawb o'r farn y dylai Rheoliadau Set 3 ddarparu ar gyfer trin pob aelod o'r cyngor neu aelod dros dro o'r Cyngor neu aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yr un fath â'r aelod y penodwyd ef i arfer ei swyddogaethau.

Gwnaethpwyd y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Bod hyn yn cyfateb i unrhyw drefniant cyflenwi dros dro mewn awdurdodau lleol lle mae'r aelodau'n destun absenoldeb teulu awdurdodedig a bod aelod arall yn cael ei benodi i ymgymryd â'u rôl dros dro
- Gofynnodd dau ymatebydd am ddiffiniad o ddeiliaid swyddi mewn perthynas â'r darpariaethau ar gyfer disodli dros dro a'r aelod o'r Parc Cenedlaethol
- Gyda chworwm arfaethedig o 70%, ac mewn rhai achosion 100%, gall materion ymarferol godi os na chaniateir aelodau dirprwyol

Cwestiwn Chwech

Roedd cwestiwn 6 yn gofyn am farn ynghylch a yw Rheoliadau Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer gweithgareddau masnachol ac endidau a reolir.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd 11 o'r farn bod Rheoliadau Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer gweithgareddau masnachol ac endidau a reolir, ond nid oedd 3 yn rhannu'r farn honno.

O'r ymatebwyr hynny a oedd o'r farn bod Rheoliadau Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer gweithgareddau masnachol ac endidau a reolir, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Y dylai fod yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddilyn yr un broses ag awdurdodau lleol wrth asesu'r risgiau masnachol sy'n gysylltiedig â masnachu a chydymffurfio â'r un gofynion adrodd
- Bod angen datrys y materion treth a TAW a nodwyd cyn y gellir cynnal asesiad priodol o'r ffyrdd y dylid caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fasnachu. Er y cydnabuwyd bod hyn y tu allan i gwmpas y rheoliadau, a hyd yn oed y ddeddfwriaeth sylfaenol, teimlai'r ymatebydd y dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain gael yr un statws TAW a statws dim treth ag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dylid trin is-gwmnïau masnachu yn yr un modd â chwmnïau awdurdodau lleol mewn perthynas â TAW a threth gorfforaeth

O'r ymatebwyr hynny nad oeddent o'r farn bod Rheoliadau Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer gweithgareddau masnachol ac endidau a reolir, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Gallai Rhan 4 (o Reoliadau Set 3) ei gwneud yn gliriach – mewn termau syml – y dylid ymdrin â llywodraethu a phrosesau priodol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn yr un modd ag ar gyfer y Prif Gynghorau, ac na ddylid llacio llywodraethu a phrosesau priodol ar Brif Gynghorau
- Roedd dau ymatebydd yn teimlo y dylai darpariaethau o'r fath fod yn Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Cymru) 2021

a'i bod yn amheus a fyddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dymuno masnachu – ac felly na fyddai angen pwerau masnachu. Credai'r ddau ei bod yn ymddangos bod haen arall yn cael ei hychwanegu heb reidrwydd. (mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn na fydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac felly ni ellir cynnwys darpariaeth mewn perthynas â masnachu yn Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Cymru) 2021)

Cwestiwn Saith
Roedd Cwestiwn 7 yn gofyn barn ynghylch a ddylid cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y gorchymyn arfaethedig i'w wneud o dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, er mwyn rhoi effaith lawn i'r pŵer i fasnachu darpariaethau yn Rhan 4 o Reoliadau Set 3.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd 11 o'r farn y dylid cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y gorchymyn arfaethedig i'w wneud dan adran 95 Deddf Llywodraeth Leol 2003, tra'r oedd 3 yn anghytuno.

O'r ymatebwyr hynny a oedd o'r farn y dylid cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y gorchymyn arfaethedig i'w wneud dan adran 95 Deddf Llywodraeth Leol 2003, gwnaed yr un pwyntiau ychwanegol ag a gynhwyswyd yng nghwestiwn 6, sef:

- Y dylai fod yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddilyn yr un broses ag awdurdodau lleol wrth asesu'r risgiau masnachol sy'n gysylltiedig â masnachu, a chydymffurfio â'r un gofynion adrodd
- Bod angen datrys y materion treth a TAW cyn y gellir cynnal asesiad priodol o'r ffyrdd y dylid caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fasnachu. Er y cydnabuwyd bod hyn y tu allan i gwmpas y rheoliadau, a hyd yn oed y ddeddfwriaeth sylfaenol, teimlai'r ymatebydd y dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain gael yr un statws TAW a statws dim treth ag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dylid trin is-gwmnïau masnachu yn yr un modd â chwmnïau awdurdodau lleol mewn perthynas â TAW a threth gorfforaeth

O'r ymatebwyr hynny nad oeddent o'r farn y dylid cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y gorchymyn arfaethedig dan adran 95 Deddf Llywodraeth Leol 2003, gwnaed y pwyntiau a ganlyn, eto'n fras debyg i'r rhai o dan gwestiwn 6:

- Y gallai Rhan 4 ei gwneud yn gliriach – mewn termau syml – y dylid ymdrin â llywodraethu a phrosesau priodol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn yr un modd ag ar gyfer y Prif Gynghorau, ac na ddylid llacio llywodraethu a phrosesau priodol ar Brif Gynghorau
- Er y cytunir y dylai'r un amodau fod yn berthnasol i brif gynghorau wrth iddynt fasnachu yn eu swyddogaethau arferol ac wrth arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol, ni ddylai hyn fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig
- Bod diffyg cyfeiriad at Orchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006 yn y rheoliadau drafft (dylid nodi y bydd gorchymyn 2006 yn cael ei ddisodli gan y gorchymyn masnachu arfaethedig y cyfeirir ato yng nghwestiwn 7 ac y bydd yn orchymyn ar wahân sy'n cynnwys awdurdodau lleol a chynghorau cymuned cymwys)
- Dylid rhoi sylw i faterion sy'n codi o statws TAW a statws treth gorfforaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn fwy cyffredinol, yn y rheoliadau drafft

- Y dylid mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn i gyd yn Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Cymru) 2021. (yn yr un modd â chwestiynau 6, mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn na fydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac felly ni ellir cynnwys darpariaeth mewn perthynas â masnachu yn Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Cymru) 2021)

Gwnaed rhai sylwadau digyswllt ychwanegol hefyd gan gynnwys diffyg eglurder tybiedig ynghylch pwerau i godi arian y Cyd-bwyllgor Corfforedig (ni fydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff sy'n codi ardoll fel y'i diffinnir yn adran 74 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) a phryder ei bod yn ymddangos bod model y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ad-drefnu awdurdodau lleol drwy'r drws cefn.

Cwestiwn Wyth
Gofynnai cwestiwn 8 a ddylid cymhwyso Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997, a Rhan 2 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ochr yn ochr â'r pŵer i fasnachu.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd 11 yn cytuno y dylid cymhwyso Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997, a Rhan 2 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ochr yn ochr â'r pŵer i fasnachu, ac roedd 3 o'r farn na ddylid gwneud hynny.

O'r rhai a gytunodd â'r cynnig i gymhwyso Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997, a Rhan 2 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, y prif sail resymegol oedd, os yw'n berthnasol i awdurdodau lleol, y dylai fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Ond roedd eraill hefyd o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol o ran ymarferoldeb gweithredu contractau.

O'r rhai a oedd yn anghytuno, teimlai rhai fod y cwestiwn yn rhy amwys ac nad oedd yn glir, yn enwedig ynghylch Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997, pa rannau oedd dan ystyriaeth. Teimlai ymatebwyr hefyd na ddylid caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael endidau preifat yn cyflawni swyddogaethau ar eu rhan, ac y byddai hyn yn tanseilio'n llwyr y diben y cawsant eu sefydlu ar ei gyfer. Yn olaf, teimlai ymatebwyr na ddylai unrhyw broblem fod ynghylch pŵer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymrwymo i gontractau, ac oherwydd bod y gofyniad ar gyfer y ddeddfwriaeth a'r broses ardystio statudol ar gyfer contractau mwy, tymor hwy wedi dod yn llai o broblem i gynghorau, byddai'n ymddangos yn ddiangen gosod y gofyniad hwn (Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997) ar Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Cwestiwn Naw

Roedd cwestiwn 9 yn gofyn i ymatebwyr a oedd unrhyw ddeddfwriaeth arall mae awdurdodau lleol yn dibynnu arni wrth weithredu'n fasnachol nad oes darpariaeth ar ei chyfer mewn rheoliadau ar hyn o bryd.

Cafwyd 10 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1990. Dylid nodi yn y cyswllt hwn fod paragraff 1 o Atodlen 3 i Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2021 yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y diffiniad o 'awdurdod lleol' er mwyn cynnwys Cyd-

bwyllgorau Corfforedig yn Neddf 1990. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997 a Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 yn cael eu trafod yng nghwestiwn 8 gan nad ydynt yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eto.

Nododd un ymatebydd ei bod yn bwysig bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dilyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (sy'n berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig drwy Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021) ac roedd hefyd eisiau sicrhau, petai Bil Aer Glân (Cymru) yn dod yn ddeddfwriaeth y byddai'n rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gydymffurfio â hyn hefyd.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (adran 24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn olaf, nododd un ymatebydd fod Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â materion treth a allai gyfyngu ar weithrediad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sy'n cael eu cwmpasu'n bennaf gan Ddeddf Treth Ar Werth 1994, Deddf Treth Gorfforaeth 2010, Deddf Treth Incwm 2007 a Deddf Trethiant ac Enillion Trethadwy 1992. Cefnogwyd hyn gan yr ymatebydd.

Cwestiwn Deg

Gofynnai cwestiwn 10 i'r ymatebwyr a yw Rhan 5 Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer y materion ariannol amrywiol eraill hynny a nodwyd mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd 11 yn cytuno bod Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer y materion ariannol amrywiol eraill hynny a nodwyd mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig (heb roi sylwadau pellach), a chredai 2 nad oedd y rheoliadau'n glir.

O'r rhai nad oeddent o'r farn bod y rheoliadau'n glir, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Nid oedd yn glir sut roedd y 'gronfa gyffredinol' yn wahanol i gronfeydd cyfrifyddu arferol
- A wnaeth y dull a ddefnyddiwyd yn y rheoliadau ganiatáu disgresiwn y swyddog adran 151 (adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972) i ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol
- Nid oedd yn glir o ble deuai'r cyllid ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac y gallai cyllido'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig o gyllidebau cynghorau fod yn niweidiol i wasanaethau lleol

Cwestiwn Un ar ddeg

Gofynnai cwestiwn 11 i'r ymatebwyr a yw Rhan 6 Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer achosion cyfreithiol mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer achosion cyfreithiol mewn perthynas

â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Fodd bynnag, teimlai 2 ymatebydd na ddylid caniatáu i Gyd-bwyllgor Corfforedig erlyn, ac yn benodol na ddylid caniatáu i Gyd-bwyllgor Corfforedig erlyn, cychwyn nac amddiffyn achos cyfreithiol mewn perthynas â'i gynghorau cyfansoddol.

Cwestiwn Deuddeg

Gofynnai cwestiwn 12 i'r ymatebwyr a yw Rhan 7 Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer ymdrin â chofnodion, dogfennau a hysbysiadau ac ati.

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer ymdrin â chofnodion, dogfennau a hysbysiadau ac ati. Roedd un ymatebydd yn croesawu'r ffaith bod canllawiau clir a syml ar gyfer cynnal, rheoli a chadw cofnodion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi eu cynnwys yn y rheoliadau, ac yn croesawu'r eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer gofal hirdymor cofnodion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig dan nawdd Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Cwestiwn Tri ar ddeg

Gofynnai cwestiwn 13 i'r ymatebwyr a yw Rhan 8 Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer materion pellach yn ymwneud â staffio a'r gweithlu.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd 12 yn teimlo bod Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer y pellach yn ymwneud â staffio a'r gweithlu, ac roedd 2 yn teimlo nad oedd Rhan 8 yn glir.

O blith y rhai a deimlai fod Rhan 8 yn glir, nododd un ymatebydd y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig allu indemnio swyddogion yn erbyn unrhyw hawliad sy'n codi yn sgil eu dyletswyddau yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn unol â rheoliad 27 o Reoliadau Drafft Set 3. Nododd un arall, fodd bynnag, yn y tymor byr, ei bod yn debygol y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dibynnu'n fwy ar staff ar secondiad a/neu drefniadau interim tra bo'r sefydliad yn cael ei sefydlu. Nodwyd hefyd, er eu bod yn cytuno y dylai'r holl staff gael eu penodi ar sail teilyngdod, yn ystod y camau gweithredu cychwynnol, mae'n bosibl na fydd pob penodiad yn cael ei wneud drwy brosesau recriwtio agored.

O'r rhai a deimlai nad oedd Rhan 8 yn glir, teimlai un fod angen egluro'r amddiffyniadau statudol a gynigir i'r swyddogion statudol. Nododd un arall fod Rheoliad 28 Rheoliadau drafft Set 3 yn cyfeirio at adran 92 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n fater i aelodau etholedig yn hytrach na staffio a'r gweithlu, ac felly nid oedd yn glir pam y cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys o dan y pennawd staffio a'r gweithlu a pham mae angen cymhwyso hyn yn benodol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Cwestiwn Pedwar ar ddeg

Gofynnai cwestiwn 14 i'r ymatebwyr a yw Rhan 9 Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer y nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, teimlai 12 fod Rhan 9 Rheoliadau drafft Set 3 yn darparu'n glir ar gyfer y nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd, a theimlai 2 nad oedd hynny'n wir.

O'r rhai a oedd yn teimlo bod Rhan 9 yn glir, dywedodd ymatebwyr hefyd

- Os bydd darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 ynghylch asedau o werth cymunedol a'u gwaredu yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru, yna tybir y byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu cymhwyso i Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd
- Er bod yr egwyddor o gyhoeddi dogfennau cyfansoddiadol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael ei chefnogi, mae angen sicrhau bod unrhyw ofyniad sy'n ymwneud â chreu neu gynnwys Cyfansoddiad yn gymesur i faint a swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

O'r rhai a deimlai nad oedd Rhan 9 yn glir, gwnaed y sylwadau a ganlyn:

- O ran y gofyniad i baratoi a chyhoeddi cyfansoddiad, gofynnodd y ddau ymatebydd a oedd angen diffinio hyn ymhellach a gofynnwyd am eglurder ynghylch a oedd y cyfansoddiad yn cynnwys rheolau sefydlog neu Gytundebau Rhwng Awdurdodau. Gofynnwyd hefyd a oedd angen arweiniad ar y cyfansoddiad
- Yn ogystal, fe wnaeth y ddau ymatebydd dynnu sylw at ddarpariaeth mewn perthynas â diogelu, cyhoeddi gwybodaeth, neu ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gynnal neu gynorthwyo mewn ymchwiliadau i unrhyw fater yn ardal eu cynghorau cyfansoddol y mae angen eu hystyried
- Teimlai'r ddau ymatebydd hefyd nad oedd digon o sail resymegol dros gynnwys darpariaethau sy'n cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ac ar y diwygiadau mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980.

Ymgynghoriad Pennod Dau

Cwestiwn Pymtheg

Gofynnai cwestiwn 15 i'r ymatebwyr a ddylai Rheoliadau Set 3 ddarparu ar gyfer cymhwyso a gwahardd aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer swydd.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Teimlai pob ymatebydd y dylai Rheoliadau Set 3 ddarparu ar gyfer cymhwyso a gwahardd aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer swydd. Fodd bynnag, gwnaethpwyd y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Nid oedd angen atgynhyrchu'r darpariaethau anghymhwyso cyffredinol ar gyfer aelodau etholedig gan fod angen iddynt fod yn gymwys i gael eu hethol yn gyntaf i'w hawdurdodau lleol cyn y gellir eu penodi'n gynrychiolwyr ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Dylid anghymhwyso staff y Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhag gwasanaethu fel aelodau o awdurdodau lleol, ond dylai'r un darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) fod yn berthnasol, felly byddent yn gallu sefyll fel ymgeisydd, a dim ond os oeddent yn cael eu hethol y byddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo o'u cyflogaeth gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Mae'r egwyddor bod y gofynion cyfreithiol ar gyfer swyddogion llywodraeth leol yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i staff y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn allweddol.

- Mae angen i unrhyw ddarpariaeth fod yn glir ynghylch cwmpas unrhyw gyfyngiad yng nghyd-destun holl gynghorau cyfansoddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Ymgynghoriad Pennod Tri

Cwestiwn Un deg chwech

Roedd cwestiwn 16 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddarparu trosolwg a chraffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022.

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gyffredinol â'r cynnig neu â phrif egwyddor y cynnig. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i gynyddu'r cydweithio a'r ffocws ar atebolrwydd democrataidd a'r hyblygrwydd ar gyfer dull gweithredu sydd wedi ei bennu'n lleol. Nododd un ymatebydd fodd bynnag y gallai fod angen model mwy strwythuredig ar gyfer rhai elfennau, gyda chraffu ymlaen llaw ar rai materion yn cynorthwyo yn hyn o beth. Nododd nifer o ymatebwyr ei bod yn bwysig rhoi'r fframwaith rheoleiddio perthnasol ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn helpu i sicrhau eglurder o ran rôl aelodau cyfansoddol y cyngor yn y broses Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn ogystal, gwnaed y sylwadau pellach a ganlyn:

- Nododd un ymatebydd, er ei fod yn croesawu'r dull gweithredu, fod angen i unrhyw bwyllgor Craffu fod yn ddigon annibynnol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig i herio'n feirniadol ac yn wrthrychol er mwyn cynnal atebolrwydd democrataidd
- Dylid ystyried y rôl y gallai'r sector gwirfoddol ei chwarae o ran dwyn llunwyr penderfyniadau i gyfrif, a hefyd sut gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fod yn rhan o'r gwaith o graffu ar y swyddogaethau perthnasol
- Roedd angen mwy o eglurder ynghylch atebolrwydd y cynghorau cyfansoddol yn y broses graffu
- Pwysigrwydd osgoi dyblygu craffu yn y trefniadau y cytunwyd arnynt yn lleol
- Os yw'r broses graffu hon am weithio'n effeithiol, rhaid i'r un dyletswyddau statudol fod yn berthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ag sy'n berthnasol i swyddogion gweithredol cynghorau o dan adran 21B o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mewn perthynas â darparu gwybodaeth, mynychu cyfarfodydd pwyllgor craffu ac ymateb i argymhellion craffu

Ni fynegodd un ymatebydd farn ar y cynnig ei hun, ond nododd fanteision a chyfyngiadau craffu gan bob cyngor cyfansoddol a threfniadau craffu ar y cyd, ac awgrymodd y gallai canllawiau ar arferion gweithio sy'n ymwneud â throsolwg a chraffu fod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nodwyd yn gyffredinol y dylai'r dewis o ba fformat, boed hynny drwy bwyllgorau craffu unigol y cynghorau cyfansoddol neu drwy Gydbwyllgor Craffu, fod yn fater i'w gytuno'n lleol.

Ymgynghoriad Pennod Pedwar

Cwestiwn Un deg saith

Gofynnai cwestiwn 17 i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dull a fwriadwyd i roi'r Cod Ymddygiad ar waith yn llawn i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy gymhwyso'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion penodol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac roedd y gorchmynion yn cynnwys:

- Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001
- Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001
- Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990

Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cytunodd pob ymatebydd â'r dull gweithredu a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Gwnaethpwyd y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- O ran Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, roedd barn y dylai'r diffiniad o swyddog monitro fod yn glir fel nad oedd unrhyw ddryswch ynghylch pa swyddog monitro (CJC neu gyngor cyfansoddol) yr oedd yn cyfeirio ato
- Rhaid i drefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Safonau gael eu nodi'n iawn, yn yr un modd â'i statws o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig – h.y. a yw'n is-bwyllgor
- Mae angen i reoliadau'r rheolau sefydlog fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig o ran adran 8 o Ddeddf Tai Llywodraeth Leol 1989 ac yn benodol i'r Unigolyn Annibynnol Dynodedig (gan nodi bod rheolau sefydlog yn cael eu cynnig ar gyfer y bedwaredd set o reoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig)
- Byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe bai Pwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael pwerau cyfwerth i gyfeirio ymchwiliadau a dyfarniadau at swyddogion statudol eraill a Phwyllgorau Safonau, naill ai yn yr awdurdodau cyfansoddol neu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, os ceir unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau
- Byddai'n ddefnyddiol egluro a fyddai atal unrhyw aelod o'i rôl fel aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o ganlyniad i unrhyw ganfyddiad o gamymddwyn difrifol yn cael unrhyw effaith ar ei rôl fel aelod etholedig yn ei awdurdodau unigol
- Mae'n bwysig bod unrhyw ddiwygiad i'r rheoliadau / gorchmynion a restrir yn caniatáu ar gyfer sefydlu system debyg i system yr awdurdodau cyfansoddol. Yn ogystal, lle mae cyfleoedd i rannu neu ddefnyddio'r trefniadau presennol, cadw'r dewis hwn yn agored

Cwestiwn 18

Roedd cwestiwn 18 yn gofyn am farn ynghylch cymhwyso Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, credai pawb y dylai Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Teimlai ymatebwyr y dylai'r Rheoliadau fod yn berthnasol i uwch swyddogion o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd yn niwtraliaeth wleidyddol swyddogion a'u gallu i roi cyngor annibynnol a diduedd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Teimlai un ymatebydd y byddai'n

briodol ac yn gydnaws â'r neges y dylid ystyried Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o deulu llywodraeth leol, tra teimlai un arall y byddai angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig benderfynu pa swyddi y dylid cyfyngu arnynt yn wleidyddol.

Yr Iaith Gymraeg

Cwestiwn 19

Roedd Cwestiwn 19 yn gofyn am farn ynghylch a allai Rheoliadau Set 3 gael unrhyw effaith benodol ar y Gymraeg.

Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd pob ymatebydd o'r farn na ddylid trin y Gymraeg yn wahanol neu'n llai ffafriol.

Gwnaethpwyd y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Roedd yr ymatebwyr o blaid yr egwyddor bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion ac ystyriaethau o ran y Gymraeg ag awdurdodau lleol
- Roedd gan un ymatebydd bryderon cryf y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg a'r cymunedau Cymraeg eu hiaith wrth symud i fodel rhanbarthol
- Teimlai un ymatebydd y byddai'r effeithiau'n dibynnu ar lefel y disgwyliad a roddir ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio

Cwestiwn 20

Roedd cwestiwn 20 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn dymuno codi unrhyw fater nad yw wedi cael sylw penodol yn y dogfennau ymgynghori.

Cafwyd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn ac roedd y rhain yn ymdrin â nifer o wahanol faterion.

Tynnodd pum ymatebydd sylw at adran 19 Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel un y gellid ei diwygio i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n galluogi / caniatáu dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol (cyngor) i amrywiaeth o gyrff rhestredig. Teimlai ymatebwyr y byddai cael y gallu i ddirprwyo fel hyn, yn enwedig lle mae gan y ddau gorff yr un swyddogaethau yn fras (e.e. swyddogaethau i hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal), yn ategu'r dull gweithio rhanbarthol ac yn hwyluso gwell cydweithio rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i gynghorau cyfansoddol. Aeth un ymatebydd â hyn ymhellach ac awgrymodd y gallai fod angen pŵer i gyngor cyfansoddol ei hun ddirprwyo i Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Nododd un ymatebydd bod yn rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sicrhau eu bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n briodol â'r rhai y mae eu penderfyniadau'n effeithio arnynt er mwyn lleihau'r diffyg cysylltiad rhwng dinasyddion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gan hynny, croesawyd yr argymhelliad y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Roedd yr ymatebydd yn teimlo y byddai hyn yn helpu i liniaru unrhyw ddiffyg cysylltiad posibl â chymunedau drwy fynnu bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ystyried barn y rhai sy'n byw ac yn

gweithio yn ardaloedd y cynghorau cyfansoddol, ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod Rheoliadau drafft Set 3 yn parhau i ddibynnu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau'r Sefydliad. Ailadroddodd yr Ombwdsmon bryderon blaenorol ynghylch y cynnydd yn nifer y cwynion Cod Ymddygiad sy'n cael eu rheoli gan ei swyddfa heb ystyried y cynnydd sy'n debygol o fod yn sgil cymhwyso'r fframwaith Cod Ymddygiad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Gan hynny, roedd yr Ombwdsmon o'r farn y dylid ystyried goblygiadau ariannol cael cyrff ychwanegol o fewn ei awdurdodaeth cyn i Reoliadau Set 3 ddod i rym.

Cododd dau ymatebydd nifer o'r un pwyntiau ychwanegol â'i gilydd, gan gynnwys yn benodol nad yw Rheoliadau drafft Set 3 yn sôn am Bwerau i godi arian, Treth, Is-bwyllgorau, Pwyllgorau Safonau, Materion cyfreithiol a strwythur llywodraethu. Roeddent hefyd o'r farn nad oedd yn glir pam roedd angen y pŵer i fasnachu ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i gwestiynu'r angen am Gyd-bwyllgorau Corfforedig a chyllido'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar ôl iddynt gael eu sefydlu.

Nododd un ymatebwr, er ei fod yn cefnogi'r dull cynllunio rhanbarthol strategol, os yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig am gyflawni ar raddfa strategol a llwyddo i drawsnewid rhanbarthau, rhaid iddynt gael digon o gapasiti a chyllid. Roedd yn teimlo na ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu cyllido ar draul Awdurdodau Lleol os ydynt am ychwanegu gwerth gwirioneddol, gan y byddai hyn yn gwaethygu ymhellach y broblem bresennol o Awdurdodau Cynllunio Lleol nad ydynt yn cael digon o adnoddau. Roedd hefyd yn teimlo bod yn rhaid rhoi digon o amser i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ac Awdurdodau Lleol gyflawni eu nodau rhanbarthol, yn enwedig yng nghyd-destun Covid-19, Brexit ac ati. Rhaid cydnabod y bydd gwneud pethau ar lefel ranbarthol, fel paratoi Cynllun Datblygu Strategol, yn cymryd amser i gyrraedd consensws ac ati. Mae angen sicrhau hefyd bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael adnoddau priodol i ddelio â goblygiadau Cynlluniau Datblygu Strategol, os yw eu hamcanion i gael eu cyflawni. Roedd hefyd yn nodi bod gwaith trawsffiniol rhagorol yn digwydd ledled Cymru yn barod a bod yn rhaid adeiladu ar hyn, dysgu gwersi a chael yr adnoddau priodol i gyflawni canlyniadau.

Mynegodd un ymatebydd bryderon bod y rheoliadau sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn dal i gael eu datblygu, o ystyried y byddai'n rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynnal eu cyfarfodydd cyntaf fel rhan o'r broses pennu cyllideb erbyn diwedd mis Ionawr 2022 fan bellaf. Roedd yr un ymatebydd hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch swyddogaethau cydredol a materion a gedwir yn ôl – er nad oedd yn dweud yn yr ail achos a oedd y rhain yn faterion a gedwir yn ôl ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ynteu'r cynghorau cyfansoddol.

Yn olaf, nododd un ymatebydd er mwyn sicrhau cysondeb gydag awdurdodau lleol wrth ystyried cymhwyso Rheoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006, y dylid ystyried cymhwyso'r rheoliadau hyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys materion sy'n berthnasol i Swyddogion Statudol. (dylid nodi bod darpariaeth mewn perthynas â rheolau sefydlog, a thrwy hynny'r rheoliadau a grybwyllwyd uchod, yn cael eu cynnig ar gyfer ymgynghori fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r bedwaredd set o reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig a fydd yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn 2022).

ADRAN TRI – Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 Drafft.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ac i weithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gefnogi trafodaethau ar y berthynas â'r trefniadau presennol ar gyfer Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf, a sut gallwn gynorthwyo'r broses o drosglwyddo trefniadau o'r fath yn unol â dyheadau rhanbarthol.

Roedd yr ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Set 3 yn ceisio sylwadau ar y darpariaethau yn y drafft ei hun ac ar nifer o feysydd y bwriedir eu cynnwys yn Rheoliadau Set 3. Mae'r ymateb hwn gan Lywodraeth Cymru yn ystyried y ddau yn eu tro.

Cyhoeddi Rheoliadau drafft Set 3

At ei gilydd, teimlai ymatebwyr fod Rheoliadau drafft Set 3 yn glir ac yn adlewyrchu'r egwyddor sylfaenol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelod o deulu llywodraeth leol. Yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod Rheoliadau drafft Set 3 yn cynnwys y darpariaethau y credir eu bod yn angenrheidiol i ymestyn agweddau cysylltiedig deddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a bydd hyn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb, atebolrwydd a thryloywder wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, codwyd nifer o faterion penodol ac rydym wedi ystyried y rhain ymhellach yma ac fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

O ran y ddarpariaeth yn Rheoliad 3(3)(a) a oedd yn datgymhwyso'r gofyniad i Gyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau bod copïau o'i God Ymddygiad ar gael yn ei swyddfa, ac felly i ofyn am gyhoeddiad electronig yn unig, nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gallai hyn fod yn anfantais i'r unigolion hynny nad oeddent yn gallu cael mynediad at ddogfennau drwy ddulliau digidol. Nid ydym o'r farn y byddai gofyniad i Gyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau bod copïau o'i God Ymddygiad yn ei swyddfa neu swyddfa cyngor cyfansoddol yn datrys hyn yn llawn, yn enwedig i'r rhai nad ydynt o bosibl yn gallu defnyddio trafnidiaeth yn rhwydd. Gan hynny, cynigir diwygio'r rheoliadau i ddarparu bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyflwyno copi o'r Cod Ymddygiad pan ofynnir iddo wneud hynny. Gallai hyn fod yn debyg, er enghraifft, i Reoliad 21(1)(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 mewn perthynas â chyhoeddi papurau cefndir ar gyfer cyfarfodydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Gan gyfeirio at y diwygiadau arfaethedig yn Rheoliad 3 i adrannau 71, 72, 78 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon anfon adroddiadau am honiadau o dorri codau ymddygiad at y cyngor cyfansoddol perthnasol neu swyddog monitro Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â swyddfa fonitro'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, nid oedd yn glir a ddylid hysbysu swyddog monitro'r Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol, yn yr un modd, os yw aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn destun ymchwiliad am achos honedig o dorri Cod Ymddygiad cyngor cyfansoddol. Mae Rheoliadau Set 3 yn darparu ar gyfer materion sy'n

ymwneud â Chod Ymddygiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u haelodau yn unig, ac felly nid ydynt yn diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i God Ymddygiad prif gynghorau. Gallwn gadarnhau felly *nad* yw'r rheoliadau'n darparu, pan fydd aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn destun ymchwiliad am achos honedig o dorri Cod Ymddygiad cyngor cyfansoddol (fel aelod o'r cyngor hwnnw), bod rhaid rhoi gwybod i swyddog monitro'r Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol.

Mewn perthynas â Rheoliad 3(5) o Reoliadau Set 3, sy'n mewnosod adran 52ZA newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, nodwyd nad oedd y ddarpariaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau neu aelodau cyfetholedig lofnodi y byddant yn cydymffurfio â'r cod. Teimlai rhai fod yr ymrwymiad ysgrifenedig hwn yn rhan allweddol o gymhwyso'r cod, er y dylid nodi hefyd fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn teimlo bod dileu'r gofyniad i ddarparu ymgymeriad ysgrifenedig yn gam cadarnhaol. Mae aelodau'r cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhwym wrth yr un fframwaith moesegol â Chyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu hawdurdodau eu hunain. Teimlwyd felly nad oedd angen iddynt roi ymrwymiad ysgrifenedig ychwanegol i lynu wrth y cod. Yn achos aelodau cyfetholedig, effaith Rheoliad 3(5) yw y bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r cod os ydynt yn derbyn y rôl. Mae rheoliad 9 o Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu ar gyfer telerau cyfethol y mae'n rhaid i aelodau cyfetholedig gytuno arnynt. Gan hynny, bydd modd cyfeirio'n benodol at y Cod Ymddygiad yn y telerau cyfethol hynny pe bai Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno gwneud hynny, ac felly gellid cynnwys cytundeb ysgrifenedig i gadw at y Cod Ymddygiad fel rhan o'r cytundeb i'r telerau cyfethol (er nad yw'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth). At ei gilydd, teimlwyd y byddai'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn Rheoliadau Set 3 yn sicrhau y byddai pob aelod yn ddarostyngedig i'r cod o'r adeg y byddent yn ymgymryd â'u rôl.

O ran y darpariaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fasnachu at ddibenion masnachol yn Rhan 4 o'r Rheoliadau, roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu'r angen am faterion o'r fath, gan gyfeirio at y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn na fydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac felly ni ellir cynnwys darpariaeth mewn perthynas â masnachu yn Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Cymru) 2021. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cael eu sefydlu i arfer swyddogaethau penodol, ac mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut dylid darparu swyddogaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn bŵer eang a allai o bosibl ganiatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig arfer swyddogaethau nad oeddent wedi cael eu darparu iddo yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol. Fodd bynnag, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu defnyddio'r swyddogaeth llesiant economaidd eang i wneud pethau i wella llesiant economaidd eu hardal.

Wrth ystyried y darpariaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fasnachu at ddibenion masnachol yn Rhan 4 o'r Rheoliadau, dywedodd nifer o ymatebwyr fod Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1990 o bosibl yn ddefnyddiol / angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Darparwyd ar gyfer hyn yn barod ym Mharagraff 1 Atodlen 3 Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021, sy'n diwygio Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 er mwyn cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y diffiniad o awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

Nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei ymateb fod Rheoliadau drafft Set 3 yn parhau i ddibynnu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau'r Sefydliad. Ailadroddodd yr Ombwdsmon bryderon blaenorol ynghylch y cynnydd yn nifer y cwynion Cod Ymddygiad sy'n cael eu rheoli gan ei swyddfa heb ystyried y cynnydd sy'n debygol o fod yn sgil cymhwyso'r fframwaith Cod Ymddygiad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Gan hynny, roedd yr Ombwdsmon o'r farn y dylid ystyried goblygiadau ariannol cael cyrff ychwanegol o fewn ei awdurdodaeth cyn i Reoliadau Set 3 ddod i rym. Byddwn yn ystyried barn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth i ni gwblhau'r Rheoliadau a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig.

Cynigion ar gyfer darpariaethau i'w cynnwys yn Rheoliadau Set 3

Roedd y ddogfen Ymgynghori a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar Reoliadau Set 3 yn nodi ac yn gofyn am adborth ar nifer o ddarpariaethau i'w cynnwys yn Rheoliadau terfynol Set 3. Roedd hyn yn cynnwys darparu ar gyfer trosolwg a chraffu, cyd-bwyllgorau Safonau, manteision a diogelwch aelodau, amddiffyn staff ac aelodau rhag atebolrwydd personol, cymhwyso a gwahardd aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a darpariaeth mewn perthynas â chontractau a chontractio.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid y dull a fwriadwyd ar gyfer pob un fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori ac o blaid cynnwys y darpariaethau hynny a nodwyd fel rhai a allai fod yn ddefnyddiol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Gan hynny, cynigir cynnwys y darpariaethau hyn yn Rheoliadau Set 3 yn unol â'r dull a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'n werth nodi, o ran trosolwg a chraffu, bod nifer o ymatebwyr wedi dweud os yw'r broses graffu arfaethedig am weithio'n effeithiol, rhaid i'r un dyletswyddau statudol fod yn berthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ag sy'n berthnasol i swyddogion gweithredol cynghorau o dan adran 21B o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mewn perthynas â darparu gwybodaeth, mynychu cyfarfodydd pwyllgor craffu ac ymateb i argymhellion craffu. Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, fel rhan o'r trefniadau y cytunir arnynt yn lleol, y bwriad yw y bydd gan Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgorau craffu; mynychu cyfarfodydd pwyllgor os gofynnir iddynt wneud hynny; ac ystyried neu ymateb i unrhyw adroddiad neu argymhellion a wneir gan bwyllgor o fewn y trefniadau y cytunwyd arnynt ac sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

O ran darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Safonau, mae'n werth nodi bod barn ymatebwyr wedi ei rhannu o ran darparu ar eu cyfer neu beidio. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod hyblygrwydd a dewis lleol yn allweddol, a dyma fu'r dull o ddatblygu'r rheoliadau drwy gydol y broses. Gan hynny, bwriedir ceisio darparu pŵer i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu Cyd-bwyllgorau Safonau os ydynt yn dymuno galluogi hyblygrwydd a dewis lleol, a mater i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedyn fydd penderfynu a ydynt yn dymuno cael Pwyllgor Safonau annibynnol ynteu Bwyllgor Safonau ar y cyd. Er mwyn gwella hyblygrwydd lleol ymhellach, byddwn hefyd yn ystyried a oes modd i Gyd-bwyllgor Corfforedig ddefnyddio'r Pwyllgor Safonau yn un o'i gynghorau cyfansoddol, yn unol â dewis nifer o ymatebwyr.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Set 3, manteisiodd ymatebwyr hefyd ar y cyfle i godi nifer o faterion mwy cyffredinol mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cyllido Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Codwyd nifer fach o bryderon mwy cyffredinol ynghylch cyllido / ariannu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gydnabod nad yw'r gofynion o ran adnoddau, a'r effaith ar gapasiti cynghorau cyfansoddol, ar gyfer sefydlu a gwasanaethu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cael eu nodi'n llawn eto. Codwyd hefyd yr angen i ystyried y gofynion parhaus o ran adnoddau wrth weinyddu a chyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1 miliwn ar gyfer 2021/22 i gynorthwyo'r gwaith o sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae gan bob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2021, grant o hyd at £250,000 i ategu costau gweinyddol sefydlu eu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Bydd costau cyffredinol a pharhaus gweinyddu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dibynnu i raddau helaeth ar y penderfyniadau a wneir gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ar sut mae'n dewis cyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, roedd penderfyniadau ar y cwantwm cyffredinol yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2022/23 yn ystyried y pwysau cyffredinol a nodwyd gan lywodraeth leol ynghyd â nifer o anghenion penodol gan gynnwys cymorth ar gyfer datblygiadau etholiadau a chymorth parhaus i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cyflawni swyddogaethau

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at adran 19 Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel un y gellid ei diwygio i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad o'r ymatebion uchod, mae adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n galluogi / caniatáu dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol (cyngor) i amrywiaeth o gyrff rhestredig. Teimlai ymatebwyr y byddai cael y gallu i ddirprwyo fel hyn, yn enwedig lle mae gan y ddau gorff yr un swyddogaethau yn fras (swyddogaethau i hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal), yn ategu'r dull gweithio rhanbarthol ac yn hwyluso gwell cydweithio rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i gynghorau cyfansoddol.

Roedd cyflawni swyddogaethau yn destun ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (ac yna cafodd ei gynnwys yn y Rheoliadau hynny). Nodwyd bryd hynny, a chyfeirir ato uchod, mai dim ond y swyddogaethau a roddwyd iddo y gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig eu harfer (mewn Rheoliadau). Ni all awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig lle nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig bwerau yn barod i gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu'r fframwaith ar gyfer ychwanegu swyddogaethau at Gyd-bwyllgor Corfforedig. Mae hyn yn darparu'r mesurau diogelu a'r sicrwydd priodol ar gyfer llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ynghylch sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu, a chan bwy.

Fodd bynnag, os oes gan Gyd-bwyllgor Corfforedig swyddogaethau tebyg i'w gynghorau cyfansoddol y gall eu harfer ar yr un pryd â'i gynghorau cyfansoddol - er

enghraifft, o ran hybu llesiant economaidd, gall Llywodraeth Cymru weld lle byddai pŵer i gyngor cyfansoddol ofyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig ymgymryd â gweithgarwch ar ei ran fod yn fuddiol. Gan hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r awgrym gan ymatebwyr i ddiwygio adran 19 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Dylid nodi bod hwn yn faes cymhleth ac mae'n bwysig bod unrhyw ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r fframwaith deddfwriaethol y cytunwyd arno yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn arfer swyddogaethau. O'r herwydd, byddai'n fwy priodol cynnwys darpariaeth o'r fath yn y bedwaredd set o reoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig y byddwn yn ymgynghori yn eu cylch yng ngwanwyn 2022. Dylid nodi hefyd mai dim ond pan fydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig yr un pwerau neu bwerau tebyg â'i gynghorau cyfansoddol y bydd darpariaeth o'r fath yn berthnasol. Nid oes angen dirprwyo pan fydd swyddogaethau wedi cael eu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Materion gweithredol

Codwyd rhai pryderon yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y dull cam wrth gam a ddefnyddiwyd i gymhwyso deddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a'r gorgyffwrdd â gweithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym mhob rhanbarth. Mae'n bwysig nodi bod llywodraeth leol wedi cytuno ar y dull gweithredu cam wrth gam hwn, ac mae'n helpu i sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth yr un fframwaith deddfwriaethol mae llywodraeth leol eisoes yn gyfarwydd ag ef mewn ffordd sydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i sut caiff ei weithredu. Yn unol ag ymrwymiadau blaenorol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i fapio / disgrifio'r fframwaith deddfwriaethol llawn ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar ôl cwblhau'r gwaith o roi'r fframwaith deddfwriaethol ar waith. Bydd yn bwysig bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn deall yr holl ddeddfwriaeth sydd ar waith mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac yn ymwybodol ohoni.

Yr Iaith Gymraeg

O ran effaith Rheoliadau drafft Set 3 ar y Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu barn gyffredinol ymatebwyr na fyddai Rheoliadau Set 3 yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg. Daeth Rheoliadau a ddiwygiwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 i rym ar 3 Rhagfyr 2021 a fydd yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Awdurdod Lleol

Cyngor Gwynedd
Cyngor Dinas Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bro Morgannwg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru
Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol

Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff arall yn y sector cyhoeddus

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyngor Cymuned a Thref

Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn
Cyngor Cymuned Llanbadog
Cyngor Cymuned Llanddunwyd
Cyngor Cymuned Llandochau

Trydydd Sector

CGGC

Cyrff cynrychioli, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau

Cymdeithas Archifau a Chofnodion
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol